Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol COVID-19

**Datganiad y Gweithiwr**

Rydych wedi cael y ffurflen hon gan eich cyflogwr oherwydd eu bod yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer y cynllun ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol. Byddai'r cynllun yn eich galluogi i barhau i gael cyflog llawn os na allwch weithio oherwydd un o'r rhesymau canlynol:

- symptomau COVID-19 (dylech archebu prawf yn syth)
- prawf COVID-19 positif (mae'r cynllun yn berthnasol am hyd at 2 wythnos)
- hunanynysu oherwydd bod gwasanaeth Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru wedi nodi eich bod wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi cael prawf positif
- hunanynysu oherwydd bod gan aelod o'ch aelwyd (estynedig) (symptomau a all fod o ganlyniad i) COVID-19

Os na allwch weithio oherwydd unrhyw un o'r rhesymau hyn, dylech gysylltu â'ch cyflogwr. Byddant yn parhau i roi cyflog llawn ichi yn ystod y cyfnod na allwch weithio cyn belled eich bod wedi llofnodi a dychwelyd y datganiad ar waelod y ffurflen hon.

Dylech lofnodi a dychwelyd y datganiad hwn yn awr, i sicrhau ei fod ar gael cyn y byddwch ei angen. Os nad ydych wedi llofnodi a dychwelyd y datganiad, gall hyn arwain at oedi.

Dim ond un waith y mae angen ichi gwblhau'r datganiad, hyd yn oed os ydych yn absennol o'r gwaith fwy nag unwaith.

Os ydych yn absennol o'ch gwaith ond bod eich amgylchiadau'n newid, dylech gysylltu â'ch cyflogwr.

Gallwch weld canllawiau llawn yn ymwneud â'r cynllun ychwanegiad at dâl salwch statudol yn:

https://llyw.cymru/cynllun-ychwanegiad-dal-salwch-statudol-ar-gyfer-covid-19

Os ydych yn cael dau daliad ar gyfer yr un absenoldeb am ryw reswm, dylech roi gwybod i'ch cyflogwr/cyflogwyr a dychwelyd un o'r taliadau.

Er mwyn gweinyddu'r taliad, bydd angen i'ch cyflogwr rannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi gyda'r Awdurdod Lleol.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio**

Os nad ydych yn gallu gweithio ond eich bod yn dal i gael cyflog llawn drwy'r cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol, bydd eich cyflogwr yn rhannu'r wybodaeth ganlynol gyda'r awdurdod lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- eich enw,
- rhif yswiriant gwladol
- dyddiad a natur eich absenoldeb
- manylion eich cyflog

Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu gydag unrhyw sefydliad sy'n cynnal gwiriadau i sicrhau bod y cynllun wedi ei weinyddu'n briodol, bod y rhai sydd wedi cael taliad o'r cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol yn gymwys i'w gael ac nad oes unrhyw daliadau dyblyg wedi'u gwneud ar gyfer yr un cyfnod o absenoldeb.

Os hoffech wybod mwy am sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol at ddibenion gweinyddu'r cynllun a sut y gwneir y taliad, siaradwch â'ch cyflogwr.

Bydd unrhyw ddata personol a anfonir at awdurdod lleol neu sefydliad arall at ddibenion gweinyddu'r taliad hwn yn cael eu cadw am uchafswm o 24 mis ac ni fyddant yn cael eu rhannu ag unrhyw sefydliad arall.

**Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon isod a'i hanfon yn ôl at eich cyflogwr**.

Gallwch lofnodi fersiwn electronig o'r ffurflen hon drwy deipio eich enw, enw eich cyflogwr a'r dyddiad isod ac anfon y ffurflen o gyfeiriad e-bost yn eich enw.

**Datganiad**

Drwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen hon, rydych yn cytuno gyda'r datganiadau canlynol:

- Os wyf yn cael taliad dwbl am yr un cyfnod o absenoldeb, byddaf yn rhoi gwybod i'm cyflogwr
- Rwy'n cytuno y caiff fy nghyflogwr roi fy enw llawn, rhif yswiriant gwladol, dyddiadau absenoldeb, natur fy absenoldeb a manylion fy nghyflog i'r awdurdod lleol priodol at ddibenion y taliad hwn.

Llofnod:

Enw (llythrennau bras):

Rhif yswiriant gwladol:

Cyflogwr:

Dyddiad: